



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Polisi Dim Rhif Archeb, Dim Tâl

Gwybodaeth Bwysig i Gyflenwyr

Mae Prifysgol Bangor wedi mabwysiadu polisi 'Dim rhif archeb, dim tâl', sy'n golygu y bydd oedi wrth dalu anfonebau cyflenwyr heb rif archeb brynu dilys a roddwyd gan y brifysgol.

Dim ond pan ddarperir rhif archeb brynu (rhif 7 digid) y dylai cyflenwyr nwyddau neu wasanaethau i'r brifysgol dderbyn archeb lafar neu ysgrifenedig. Darperir rhif archeb brynu gan aelod o staff y brifysgol a dylid ei ddarparu cyn derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau.

Os yw'r nwyddau neu wasanaethau eisoes wedi eu darparu i'r brifysgol, ac nad ydych wedi derbyn archeb brynu, rhaid i chi gysylltu â'r aelod staff yn y brifysgol a roddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol i gyflenwi'r nwyddau / gwasanaethau a gofyn iddynt ddarparu rhif archeb brynu dilys i chi.

Ar ôl i chi gael yr archeb brynu, dylech sicrhau fod rhif yr archeb brynu wedi ei nodi ar eich anfoneb cyn ei chyflwyno i'r brifysgol i'w thalu. Rhaid i bob anfoneb nodi rhif archeb brynu swyddogol y brifysgol. Bydd unrhyw anfonebau a dderbynnir heb archeb brynu ddilys y brifysgol yn cael eu dychwelyd atoch gyda chais i'w hail-anfon gyda rhif archeb brynu'r brifysgol arni. **Rhaid** anfon pob anfoneb i payments@bangor.ac.uk mewn fformat 'pdf'. Ni ddylid anfon anfonebau at aelodau staff unigol.

Oni bai y cytunwyd yn wahanol gyda'r brifysgol, ein telerau talu yw 30 diwrnod.

Isod ceir set o gwestiynau cyffredin ynglŷn ag archebion prynu i gyflenwyr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau nad ydynt yn cael eu hateb yn y cwestiynau cyffredin, anfonwch e-bost fos999@bangor.ac.uk gyda'ch cwestiwn a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi.

Cwestiynau Cyffredin

C. Pam mae'r brifysgol yn gweithredu'r polisi "dim archeb brynu, dim tâl"?

Mae'r polisi wedi ei roi ar waith i gynyddu effeithlonrwydd yn y broses gaffael ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r manteision i gyflenwyr yn cynnwys proses symlach i dalu anfonebau yn unol â thelerau masnachu (os nodir rhif archeb brynu) a chostau prosesu is i'r brifysgol.

C. A fyddaf yn cael fy nhalu'n gyflymach os byddaf yn nodi rhif archeb brynu?

Y telerau talu yw 30 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb. Ond ni fydd anfonebau a dderbynnir heb rif archeb brynu dilys yn cael eu talu a byddant yn cael eu dychwelyd atoch. Gall hyn arwain at oedi yn y broses dalu.

C. Beth yw ffurf rhifau archeb brynu Prifysgol Bangor?

Mae holl rifau archeb brynu dilys Prifysgol Bangor ar ffurf 7nnnnnn neu 5nnnnnn, gydag 'n' yn rhif.

C. Mae anfonebau heb rif archeb brynu wedi cael eu talu gan Brifysgol Bangor yn y gorffennol. A fydd hyn yn dal i ddigwydd?

O ganlyniad i ffurfioli ein trefniadau prynu, rhaid gwneud pob ymrwymiad ariannol ar gyfer nwyddau a/neu wasanaethau gan ddefnyddio archeb brynu. Fel rhan o'r polisi 'dim archeb brynu, dim tâl', disgwylir i'r cyflenwr roi'r rhif archeb brynu dilys ar eu hanfonebau, fel arall bydd yn cael ei dychwelyd atynt.

C. Mae anfoneb wedi ei dychwelyd yn gofyn am rif archeb brynu dilys. Sut gallaf gael rhif archeb brynu?

Dylech gysylltu â'r aelod staff a roddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol i gyflenwi'r nwyddau / gwasanaethau a gofyn iddynt ddarparu rhif archeb brynu dilys. Ar ôl ei gael, dylech anfon anfoneb arall yn nodi'r rhif archeb brynu dilys i payments@bangor.ac.uk.

C. Beth ddylwn ei wneud os nad wyf yn gyflenwr ond rwyf wedi derbyn llythyr?

Mae rhai unigolion sydd wedi derbyn taliadau / grantiau gan y brifysgol yn y gorffennol wedi cael eu nodi yn ein system gyfrifo fel cyflenwyr. Os ydych wedi derbyn llythyr ac nad ydych yn darparu nwyddau a/neu wasanaethau i ni, anwybyddwch y llythyr hwn ac ymddiheurwn am yr anghyfleustra.

C. Pa ysgolion a gwasanaethau proffesiynol mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt?

Mae pob ysgol a gwasanaeth proffesiynol ym Mhrifysgol Bangor yn dod o dan y polisi hwn.

C. Rwyf wedi cyflenwi'r brifysgol ers blynyddoedd lawer heb archeb brynu – pam mae'r drefn wedi newid?

Byddwch yn cael eich talu'n brydlon ac yn ddibynadwy pan fyddwch yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r brifysgol gan y bydd yr archeb brynu yn gadarnhad ffurfiol o ofyniad y brifysgol ac yn dangos y cyfeiriad cywir i anfonebu.

C. Ai drwy'r post yn unig y byddaf yn derbyn archebion prynu?

Na, bydd archebion prynu fel arfer yn cael eu hanfon trwy e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn eich manylion fel cyflenwr. Gellir cadarnhau rhifau archebion prynu dros y ffôn hefyd, ond dylech ofyn am gopi o'r archeb ar gyfer eich cofnodion eich hun.

C. Beth fydd yn digwydd os caf archeb brynu ac mae'n ymddangos bod y manylion yn anghywir?

Cysylltwch â'r sawl a osododd yr archeb brynu i ddechrau (bydd y manylion cyswllt yn cael eu darparu ar yr archeb) a gofyn am eglurhad. Os oes angen, gellir canslo'r archeb brynu wreiddiol, a darparu un arall.

C. Beth ddylwn ei wneud os na fyddaf yn derbyn archeb brynu?

Cysylltwch â'r sawl a osododd yr archeb ar lafar neu trwy e-bost a gofynnwch am archeb brynu ysgrifenedig, neu o leiaf, rhif archeb brynu.

C. Sut byddaf yn gwybod bod yr archeb brynu wedi ei chymeradwyo gan rywun â digon o awdurdod i wneud?

Dim ond ar ôl i'r unigolyn priodol eu hawdurdodi y bydd archebion prynu yn cael eu cynhyrchu gan ein system.

C. Beth ddylwn ei wneud os byddaf wedi anfon anfoneb ac mae'n ymddangos bod fy nhaliad wedi ei oedi?

Cysylltwch â'r sawl a osododd yr archeb neu a enwir ar yr archeb brynu. Mae'n bosib y bydd anghydfod ynglŷn ag anfonebau am unrhyw un o'r rhesymau canlynol a byddant bob amser yn cael eu hanfon yn ôl i'r cyfeiriad y daethant ohono gydag e-bost yn nodi pam y bu anghydfod yn eu cylch.

- Dim rhif archeb brynu wedi ei nodi ar yr anfoneb
- Mae'r rhif archeb brynu a nodir wedi dod i ben
- Nid yw'r rhif archeb brynu yn cyfateb i archeb Prifysgol Bangor
- Nid yw'r rhif archeb brynu yn cyfateb i'r disgrifiad/dyddiadau ar yr anfoneb
- Mae mwy nag un rhif archeb brynu wedi ei nodi ar un anfoneb. Anfonwch anfonebau unigol ar gyfer pob rhif archeb brynu
- Mae mwy nag un anfoneb mewn un ddogfen PDF. Anfonwch un anfoneb fesul ffeil

PDF

- Dim rhif anfoneb wedi ei nodi

C. A fyddaf yn dal i gael fy nhalu os byddaf yn anghofio cynnwys rhif yr archeb brynu ar fy anfoneb?

Rhaid i bob anfoneb nodi rhif archeb brynu swyddogol y brifysgol. Os na ddarperir hyn, bydd yr anfoneb yn cael ei dychwelyd i'r anfonwr a gall arwain at oedi cyn talu.

C. Pwy fydd yn anfon yr archeb brynu ataf?

Bydd yr archeb brynu fel arfer yn cael ei hanfon atoch trwy e-bost, i'r cyfeiriad a ddarperir yn y manylion cyflenwr newydd y byddem wedi gofyn amdanynt. Os oes angen, gellir anfon yr archeb brynu drwy'r post hefyd. Bydd yr archeb brynu yn dangos ei bod wedi ei hanfon gan yr Uned Gaffael – procurement@bangor.ac.uk, ond mae hon yn broses awtomataidd a dylid anfon unrhyw ymholiadau am archeb brynu at yr enw a nodir ar yr archeb brynu.

C. A fydd gwybodaeth ychwanegol ynghlwm wrth archeb brynu?

Bydd y sawl sy'n gwneud y cais yn edrych ar yr archeb brynu cyn ei chyhoeddi, felly gellir atodi unrhyw beth angenrheidiol, fel ei fod yn eich cyrraedd yn gyflawn. Os credwch fod unrhyw beth ar goll o'ch archeb brynu, cysylltwch â'r sawl sy'n gwneud y cais.

C. Beth os nad wyf yn deall y manylion ar yr archeb brynu?

Bydd rhaid i chi holi'r sawl a enwir ar yr archeb brynu fel yr un sy'n gofyn am y nwyddau a/neu wasanaethau.

C. Os byddaf fel arfer yn derbyn archebion prynu dros y ffôn, a allaf barhau i wneud hyn?

Gallwch. Ond bydd rhaid i chi sicrhau bod rhif archeb brynu yn cael ei nodi a bod rhif yr archeb brynu yn cael ei nodi ar eich anfoneb.

C. A yw'r polisi hefyd yn berthnasol i archebion prynu ar y rhyngwyd?

Ydy. Dylai'r archeb brynu gynnwys y rhif archeb brynu o hyd a byddai'n rhaid i chi nodi rhif yr archeb brynu ar eich anfoneb o hyd.

C. Beth fydd yn digwydd os gofynnir i mi ddarparu nwyddau a/neu wasanaethau mewn argyfwng?

Efallai y bydd achosion pan fydd angen archeb frys ac efallai na fydd yn bosib creu rhif archeb brynu cyn i'r nwyddau a/neu wasanaethau gael eu derbyn gan y brifysgol. Yn yr achos hwn, bydd rhif archeb yn cael ei roi i chi fel y gallwch brosesu'r archeb. Mae'r dull hwn ar gyfer argyfyngau yn unig, a bydd rhif archeb brynu dilys yn dilyn.